# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Teams**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mehefin 2020

Amser: 10.00 - 10.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6383

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Andrew RT Davies AS<br>David J Rowlands AS |
| Tystion: | Douglas Bain, Comisiynydd Dros Dro Safonau |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Williams (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.
- Roedd y Cadeirydd yn dymuno mynegi cydymdeimlad dwys y Pwyllgor â theulu a ffrindiau Mohammad Asghar.

## 2 Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau 2019-20

- Croesawodd y Cadeirydd Douglas Bain, y Comisiynydd Safonau Dros Dro, a'i wahodd i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Safonau ar gyfer 2019/20.
- Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach, ar 22 Mehefin 2020.

## 3 Adrodd Deuol

- Trafododd y Pwyllgor ei adolygiad o ofynion adrodd yn ymwneud â rhoddion o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.
- Cytunodd y Pwyllgor, oherwydd cyfyngiadau amser yn sgil y pandemig Covid-19, na fyddai'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar unrhyw ffurf ar hyn o bryd.
- Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys y gwaith hwn yn yr adroddiad etifeddiaeth ar gyfer pwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am safonau.